

**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE
CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A
MICROSOFT TEAMS)**

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023

Cadeirydd: Cynghorydd R.James

Is-gadeirydd: Cynghorydd T.Bowen

Cynghorwyr: S.Yelland, G.Morgan, C.Holley, A.Dacey a/ac
M.Harvey

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** C.Moore, Burnes, S.Brennan, P.Chivers,
T.Rees, J.Stevens a/ac L.Willis

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr

Arsylwyr:

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno eu hunain fesul un i'r bobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Cadarnhaodd y cadeirydd hefyd y cynghorwyr a oedd yn bresennol.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2023 fel cofnod cywir.

Gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau unrhyw ymddiheuriadau. Cadarnhaodd y swyddog gwasanaethau democrataidd y rhestr o ymddiheuriadau a dderbyniwyd. Gofynnwyd a fyddai ymddiheuriadau yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

4. **MONITRO PORTFFOLIO CHWARTEROL BARGEN DDINESIG
BAE ABERTAWE**

Cyflwynodd Jonathan Burns adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor o adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Eglurodd Jonathan Burns hefyd nad yw adroddiad ariannol chwarter 4 yn bresennol gan fod angen iddo fynd drwy'r bwrdd rhaglen a'r cydbwyllgor a chael ei ystyried ar gyfer Cydbwyllgor Craffu yn y dyfodol.

Mae aelodau'n teimlo bod risgiau sylweddol ar Statws Coch Oren Gwyrdd fel y nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiad ac roeddent am wybod beth oedd y mesurau lliniaru.

Cytunodd swyddogion fod saith risg goch, a dywedwyd wrthynt fod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer pob risg. Nid yw rhai o'r risgiau yn gallu cael eu rheoli gan fargen Dinas Bae Abertawe ac mae briff gwylio yn cael ei gadw ar y rheini. Esboniodd swyddogion fod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer y rhai sydd dan reolaeth bargen Dinas Bae Abertawe, o leiaf ar gyfer monitro'r risgiau. Mae yna hefyd fesurau lliniaru megis camau gweithredu cywirol ar gyfer cyrsiau mewn rhai achosion.

Roedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd cyfraniadau cyllid y sector preifat yn unol ag amcanestyniad achosion busnes a'r llithriant yn y rhaglen gyflenwi yn erbyn cerrig milltir allweddol. Esboniodd swyddogion fod cyllid y sector preifat yn risg goch, ar lefel portffolio, gan fod £600,000,000 o'r cyllid yn dod o gyllid sector preifat. Dyma pam ei fod yn risg goch ar lefel portffolio, fodd bynnag, ni nodir bod unrhyw brosiect o fewn y portffolio yn risg goch.

Esboniodd swyddogion, mewn perthynas â'r llithriad, roedd yr holl brosiectau isadeiledd cenedlaethol wedi cael eu heffeithio gan oedi a achoswyd gan faterion fel trafodaethau contract yn cymryd mwy o amser a chostau cynyddol. Mae asesiad effaith adeiladu yn cael ei gynnal i geisio monitro a lliniaru costau adeiladu cynyddol a llithriad sy'n dueddol o gyd-ddigwydd.

Cyfeiriodd yr aelodau at faint o beirianeg gwerth sydd, yn enwedig y gwaith i adnewyddu'r glannau lle mae'n cael ei adnewyddu yn hytrach na'i ailadeiladu. Dywedodd swyddogion y byddai angen cynnal proses rheoli newid, byddai hyn yn golygu cymeradwyo'r newid.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a fyddai rhai prosiectau'n dechrau dioddef oherwydd y cynnydd hwn yn y costau.

Esboniodd swyddogion y byddant ond yn gwybod bod problem pan fydd pethau'n mynd allan i dendro. Mae'r asesiad effaith adeiladu yn tynnu sylw at fwlch o £31,000,000 y mae angen ei lenwi. Dywedodd swyddogion mai'r mesurau lliniaru yn erbyn hynny yw peirianeg gwerth ac mae bylchau hefyd yn cael eu llenwi gan yr awdurdod lletyol. Dywedodd swyddogion eu bod yn edrych ar ba fesurau lliniaru all helpu gyda chontractwyr.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau am statws bob prosiect a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Eglurodd swyddogion fod 9 prif brosiect a rhaglen ac o fewn y rhain mae 35 o brosiectau. O'r rhain, mae 3 wedi cael eu cwblhau ac maent ar waith, mae 17 yn cael eu cyflwyno ac mae'r gwaith adeiladu wedi'i ddechrau. Mae hyn yn cyfateb i werth oddeutu £400,000,000 o fuddsoddiad. Tynnodd swyddogion hefyd sylw at y ffaith bod 15 o'r 35 ar gam cynllunio cyn cychwyn.

Gofynnodd yr aelodau am y cartrefi fel gorsafoedd pŵer a gofynnwyd a ddylai'r risg fynd o goch i oren gan mai dim ond un aelod o staff sydd ar ôl i'w gyflogi. Esboniodd swyddogion mai oedi yn unig oedd hyn o ganlyniad i amseru'r adroddiad ac maent bellach wedi'u staffio'n llawn. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei ddiweddarau gyda gwyrdd ar gyfer y mesur hwn.

Gofynnodd aelodau am ragor o eglurder ynghylch statws y prosiect neu Amserlen Normaleiddio Gweithgarwch Cyffredinol (GANT). Gofynnodd yr Aelodau am eglurder o ran a oedd yn cyfeirio at statws yr achosion busnes neu statws y prosiectau.

Eglurodd swyddogion ei fod yn darparu prosiectau fel gweithgaredd caffael, gallai'r rhain fod yn y cam cyn cychwyn, gan ddechrau ar y gwaith adeiladu.

Tynnodd yr Aelodau sylw at broblem gyda'r diagram ar yr adroddiad. Eglurodd swyddogion nad oedd y diagram yn yr adroddiad yn gyflawn, ac y byddent yn cywiro'r adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch adroddiadau statws y prosiect ac arwyddion o beth yw'r mesurau lliniaru risg fel y gall y pwyllgor werthfawrogi statws agweddau ar y Fargen Ddinesig yn well.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfanswm y swyddi a grëwyd fel y crybwyllwyd yn yr atodiad.

Dyweddodd swyddogion eu bod yn credu mai 550 yw'r nifer ar hyn o bryd, cynnydd ar yr hyn y a nodwyd yn yr adroddiad sef 536.

Dyweddodd swyddogion fod angen i swyddi fod wedi cael eu cynnal am o leiaf blwyddyn i gadarnhau eu bod yn swyddi sy'n para am gyfnod hwy cyn y gellir eu cynnwys. Mae nifer y swyddi a grëwyd yn llawer uwch ym mhob tebygolrwydd. Dywedodd swyddogion y byddant ond yn gallu canfod y gwir effaith ar greu swyddi ar ôl cynnal asesiad economaidd annibynnol o'r effaith ar y Fargen Ddinesig.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau nad yw'r effaith economaidd ac effaith y swydd wedi'u darganfod eto nes bod rhai gwerthusiadau carreg filltir wedi cael eu cwblhau. Nid yw hyn wedi'i gychwyn gan y Cyd-bwyllgor eto. Mae'n rhaid mynd drwy'r broses a llywodraethu yn gyntaf cyn y gellir cychwyn hyn.

Dyweddodd swyddogion o safbwynt buddsoddi eu bod wedi cyrraedd 22% o'r targed buddsoddi cyffredinol sef £271,000,000 a'r gobaith yw bydd yr adroddiadau diweddaraf a fydd yn cyrraedd yn gwneud cynnydd ar hynny wrth iddynt fynd drwy'r flwyddyn.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ran a oedd yr adroddiad hwn yn gipolwg o'r cyfnod ac roeddent yn meddwl tybed a oedd y ffigwr o £31,000,000 yn ffigwr mympwyol oherwydd nifer yr amcangyfrifon a gynhwyswyd. Cadarnhaodd swyddogion fod hwn yn gipolwg o'r cyfnod a dywedwyd nad oedd cryn dipyn o gaffaeliadau ar gam lle gallent amcangyfrif y bwlch.

Dyweddodd swyddogion hefyd fod y ffigwr yn isafswm gan y bydd pris pethau'n annhebygol o ddychwelyd i'r un lefel â dwy neu dair blynedd yn ôl ac mae'n anodd canfod faint mae prisoedd wedi cynyddu tan y broses gaffael.

Roedd yr aelodau hefyd am gael eglurhad ynghylch a oedd hyn yn cynnwys y deunyddiau yn ogystal â chostau cyflogaeth. Cadarnhaodd y swyddogion ei fod yn cynnwys popeth.

Holodd yr aelodau faint a ddyrannwyd i'r adeiladau yn unig, ar ôl comisiynu cryn dipyn o gwmnïau i ddechrau'r broses adeiladu ar sawl prosiect. Nid oedd gan swyddogion y ffigurau wrth law ond roeddent yn gallu dod o hyd i'r manylion hynny.

Gofynnodd yr aelodau faint o gontractwyr haen 1 sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (roedd ganddynt brif swyddfa yng Nghymru). Roedd swyddogion yn ansicr ond doedden nhw ddim yn credu y byddai gan lawer brif swyddfa yng Nghymru er eu bod wedi'u lleoli yma yn ystod

y broses adeiladu ac maent yn trafod presenoldeb tymor hwy yn yr ardal yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion y gallant edrych ar ofyn i'r contractwyr haen 1 hyn am hyn.

Dywedodd yr Aelodau mai un o drafodaethau cynnar y Pwyllgor oedd y gobaith y bydd contractwyr yn cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y gallant roi baich ar atebolrwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu a chyflwyno tendr a fyddai'n hyfyw i fod yn gontractwr haen 1 ymhlith 3 neu 4 ohonynt. Dywedodd yr Aelodau nad yw hynny wedi dod trwodd.

Roedd yr aelodau am wybod a oedd y farchnad yng Nghymru yn gyfrifol am hynny, neu a oedd hynny'n fethiant gan y Fargen Ddinesig i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cynnwys mewn pecyn fel tendr safle cyfan yn hytrach na pheccynnau o dendrau.

Dywedodd swyddogion eu bod yn gasgliad o dendrau a rhoddwyd yr enghraifft o'r glannau yn Abertawe. Y rhain fydd y gwesty, yr Arena a Ffordd y Brenin a'r Matrics a'r Ganolfan Siopa, mae pob un ohonynt yn becynnau ar wahân o fewn yr un achos busnes. Esboniodd swyddogion y byddai'r rhain yn cael eu rhannu'n is-brosiectau o fewn prosiect neu raglen ond hyd yn oed gyda rhai o'r prosiectau byddent yn mynd dros drothwyon graddfa y byddai rhai cyflenwyr lleol yn gallu cyflwyno tendr ar eu cyfer.

Roedd yr Aelodau'n pryderu o ran mwyn cyflawni buddion, yn enwedig ar gyfer swyddi dynion yn y sector adeiladu yn benodol, maent wedi arfer â gweithio i ffwrdd ac aros yn rhywle yn ystod wythnos a mynd adref dros y penwythnos. Mynegodd yr aelodau bryder o ran pan fydd y prosiect wedi cael ei gwblhau, beth fyddai'r swyddi yn lleol?

Dywedodd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o'r gwariant a'r buddion wedi bod yn ymwneud â'r gwaith adeiladu hyd yn hyn, ac os nad yw hynny o fudd i gwmnïau a gweithwyr Cymru yna mae'n rhaid cwestiynu beth yw'r buddion i bobl leol fel rhan o'r cam hwn o'r cynllun.

Dywedodd swyddogion cafwyd dros 200 o gontractau cadwyn gyflenwi leol a haenau 2 a 3 fyddai'r rhain. Mae pob un o'r rhain gyda chwmnïau lleol a bydd pob un ohonynt yn cyfrannu at y Fargen Ddinesig ac yn tyfu eu cwmnïau eu hunain.

Nododd yr aelodau hyn ond roeddent yn pryderu y byddai'r contractwyr haen 1 yn cymryd elfen o elw a phe bai mwy o

gontractwyr haen 1 o Gymru yna o bosib y byddai mwy o arian Cymru'n aros yng Nghymru.

Esboniodd swyddogion fod contractwyr haen 1 a haen 2 yn amharod i wneud cais am gontractau ar hyn o bryd ac mae angen cael isgontractwyr i gymryd rhan a'u tyfu ac i sicrhau eu bod yn gallu ffynnu wrth symud ymlaen. Esboniodd swyddogion hefyd, hyd yn oed gyda'r is-gontractwyr, bod eu llyfrau'n llawn ac mae diffyg cyflenwad o weithlu sy'n gyfrifol am y diffyg cwmnïau sy'n gallu gwneud cais am gontractau.

Eglurodd yr aelodau mai'r gobaith oedd y byddai llawer o gwmnïau wedi dod i'r amlwg mewn ymateb i'r buddsoddiad enfawr hwn a/neu er mwyn i'r cwmnïau mwy lleol dyfu. Dywedodd yr aelodau mai'r cwestiwn yw sut ydyn nhw'n tyfu i'r maint lle gallant ymgymryd â'r prosiectau mawr?

Dywedodd yr aelodau efallai bod angen sgwrs lle gellir canolbwyntio ar fuddion gwaith adeiladu a phapur ar isgontractwyr a Swyddi Cymru ac ati.

Eglurodd yr aelodau y byddai'r broblem gydag adeiladu yno bob amser oherwydd mae'r gwaith adeiladu'n symud o gwmpas y wlad ac felly mae'r gweithwyr yn symud hefyd. Mae angen edrych ar y gyflogaeth hirdymor oherwydd mae'r gyflogaeth tymor byr yn broblem gan nad oes unrhyw fusnesau haen 1 adeiladu o Gymru wedi'u lleoli yma. Mae natur dros dro gwaith adeiladu'n golygu bydd y swyddi adeiladu'n rhai tymor byr bob amser.

Roedd yr aelodau hefyd am wybod am y gwerth ychwanegol a roddwyd i fuddion ehangach y prosiect a byddent yn awyddus i ddarllen yr adroddiad y dywedodd swyddogion fyddai'n dod yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dywedodd yr aelodau hefyd fydd gan y prosiectau oes silff sy'n hirach na chyfnod y Fargen Ddinesig a'r gobaith yw y dylai'r swyddi hynny aros am flynyddoedd lawer i ddod, ond ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r swyddi yn y maes adeiladu a'r syniad yw ceisio cael cymaint o fuddion â phosibl allan o'r elfen honno i sicrhau gwerth am arian.

Dywedodd swyddogion mai un o'r meysydd sgiliau a thalent yw sector y diwydiant adeiladu, yn enwedig o ran ffyrdd arloesol o adeiladu. Eglurodd swyddogion y byddant yn datblygu gweithlu cymwys iawn oherwydd y cynlluniau peilot a'r prentisiaethau ac yn

ddelfrydol bydd y bobl hynny yn cael eu cadw yma yn niwydiant adeiladu Cymru.

Tynnodd aelodau sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi darparu rhagor o fuddsoddiad drwy sgiliau drwy gronfeydd eraill a grëwyd ac roeddent am wybod a yw'r awdurdodau lleol a'r swyddogion wedi cael trafodaethau i sicrhau bod y rhaglenni sgiliau yn cael eu llunio mewn ffordd sy'n osgoi dyblygu.

Dywedodd swyddogion eu bod yn credu bod hynny'n digwydd drwy'r bartneriaeth sgiliau dysgu rhanbarthol a chyda'r partneriaid ynghylch codi'r gwastad hefyd. Dywedodd swyddogion hefyd bod cyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau yno.

Nodwyd yr adroddiad.

5. **DYRANIAD ARFAETHEDIG O £5.3M O GRONFEYDD BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWA A BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWA'N CEFNOGI ARLOESI A THWF CARBON ISEL (SILCG) - CRYNODEB DIWYGIEDIG O'R PROSIECT CYFLEUSTER CYNHYRCHU GWEITHGYNHYRCHU UWCH**

Darparodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad fel a ddosbarthwyd, eglurodd fod Castell-nedd Port Talbot yn arwain y cynnig o ddyraniad dros dro o £5,300,000 o gronfeydd y Fargen Ddinesig a'r bwriad yw ei fod yn cefnogi arloesedd a rhaglen twf carbon isel i gryfhau a gwella'r Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch fel rhan ohono.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod bwrdd y rhaglen wedi cymeradwyo hyn ar 18 Ebrill 2023 a derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor ar 11 Mai. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y gymeradwyaeth yn golygu y gall Castell-nedd Port Talbot ddiweddarau eu hachos busnes i gefnogi arloesedd a thwf carbon isel i wella'r cyfleuster cynhyrchu uwch gan gynnwys Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero-net Genedlaethol.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero-net Genedlaethol yn adeilad corfforol, sy'n gartref i Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Sgiliau. Esboniodd swyddogion fod hyn o ganlyniad i gael gwared ar y Ganolfan Ragoriaeth a Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf, Ffatrioedd y Dyfodol a Gwyddoniaeth Dur. Cafodd bob un ohonynt eu harwain gan CNPT yn 2019.

Eglurodd swyddogion mai'r hyn a ddaeth o ganlyniad i hynny, oedd cefnogi arloesedd a thwf carbon isel a gafodd ei hymgorffori yn y rhaglen a'i chymeradwyo gan y Llywodraethau ym mis Mawrth 2021.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod hyn yn golygu bod £5,300,000 o gronfeydd y Fargen Ddinesig yn parhau i fod heb ei ddyrannu i unrhyw brosiect neu raglen a gofynnodd Castell-nedd Port Talbot i ddiwygio'r achos busnes carbon isel gyda Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Gofynnodd swyddogion i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo dyrannu'r arian sydd heb ei ddyrannu i Gastell-nedd Port Talbot mewn egwyddor, at y dibenion a amlinellir yn yr adroddiad.

Gofynnodd swyddogion a oedd Castell-nedd Port Talbot yn gallu bwrw ymlaen yn ffurfiol â datblygu achos busnes i gynnwys y prosiect cyfleuster cynhyrchu gweithgynhyrchu uwch a mynd trwy broses sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad B ynghylch y broses o gymeradwyo a newid achosion busnes sy'n gysylltiedig â hynny. Mae datblygiad yr achos busnes yn cael ei brosesu ar hyn o bryd.

Esboniodd swyddogion mewn perthynas â dyddiadau targed, bu llawer o ymgysylltiad ag addysg bellach ac uwch, Diwydiant Cymru, Diwydiant Sero NetZero Cymru a diwydiant lleol drwy'r Tîm Datblygu Economaidd. Mae swyddogion yn seilio hyn ar angen a galw gan y diwydiant ac o'r herwydd, mae'r rhain yn gyfleuster a sgiliau a arweinir gan ddiwydiant; Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mawr ynddo hefyd.

Dywedodd swyddogion, mewn perthynas ag amserlen, maent yn gweithio drwy'r achosion economaidd a busnes ar hyn ac o bryd ac maent yn gobeithio cael drafft cyntaf yr achos economaidd erbyn yr wythnos hon. Yna byddant yn adolygu'r ddogfen gyda thîm Jonathan Burns a phartïon eraill y maent wedi bod yn ymgysylltu â nhw.

Mae swyddogion yn mynd i Fwrdd Llywodraethwyr Rhaglen Twf Carbon Isel ar 14 Medi 2023 ac yna bwrdd rhaglen y Fargen Ddinesig ar 31 Hydref 2023 ac yna penderfynir arni yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig ar 16 Tachwedd 2023.

Dywedodd swyddogion, oherwydd bod hwn yn newid sylweddol, mae'n debygol y bydd angen ei gymeradwyo gan y Llywodraeth ond mae swyddogion eisoes mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.

Roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn yr amserlen a chroesawu'r cyllid, gofynnwyd iddynt egluro sefyllfa Ardal Fenter Glannau Port Talbot.

Dywedodd swyddogion ei fod yn cynnwys glannau'r harbwr, parc ynni Baglan ac ystâd ddiwydiannol Baglan.

Croesawodd yr aelodau nifer y swyddi a grëwyd mewn perthynas â'r prosiect hwn a gofynnwyd a oeddent yn swyddi tymor hir.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn swyddi tymor hir, mae rhai yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu ond roedd y rhan fwyaf yn dod o gwmnïau deillio llwyddiannus ac yn deillio o Brifysgol Abertawe a'r Drindod Dewi Sant. Mae'r ddau yn chwilio am safle ar gyfer busnesau newydd a bydd y cyfleuster hwn yn darparu offer a rennir a sgiliau a arweinir gan ddiwydiant megis edrych ar sgiliau llif yn y dyfodol, porthladd rhydd, Canolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd. Y nod yw sicrhau bod gan gymunedau Dinas-ranbarth Bae Abertawe y sgiliau priodol i gael mynediad at swyddi tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd swyddogion fod hyn yn pontio'r bwlch rhwng diwydiant a'r byd academiaidd ac yn helpu'n sylweddol wrth helpu cwmnïau i ddatblygu eu cynnyrch. Mae gwaith wedi'i wneud ar hyn yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrth aelodau fod 6 neu 7 catapwlt yn Lloegr, 2 yn yr Alban ac nad oedd un yng Nghymru. Mae swyddogion yn siarad â Llywodraeth Cymru am gael catapwlt yng Nghymru a sut y gall swyddogion ddefnyddio rhai o'u systemau i gysylltu ac i fod ychydig yn fwy uchelgeisiol. Dywedodd swyddogion eu bod yn gweld hwn fel prosiect sylfaenol wrth symud ymlaen nid yn unig yng Nghastell-nedd Port Talbot ond ar draws y rhanbarth a de Cymru yn ei chyfanrwydd. Dywedodd swyddogion fod hyn ychydig yn fwy uchelgeisiol na'r hyn a ddisgwyldid ar y dechrau.

Roedd yr aelodau am gael rhagor o wybodaeth am ddadansoddiad demograffig y bobl y byddai'r swyddi hyn yn mynd iddynt a phwy fyddai'n elwa o'r hyfforddiant.

Esboniodd swyddogion y byddai'n gyffredinol, pobl sydd eisoes mewn cyflogaeth, pobl sy'n gadael ysgol, pobl ifanc hyd at wella sgiliau aelodau presennol y gweithlu. Mae hyn hefyd yn caniatáu i gwmnïau ddatblygu cynhyrchion yn y ganolfan weithgynhyrchu uwch. Wedyn, tynnodd swyddogion sylw hefyd at yr elfen sgiliau ar yr ochr. Maen nhw'n credu bod hyn yn cyd-fynd yn berffaith.

Defnyddiodd swyddogion yr enghraifft o Coventry yn y Ganolfan Technoleg Gweithgynhyrchu (MTC) lle'r oeddent yn cynhyrchu 200 - 300 o brentisiaid o ansawdd uchel bob blwyddyn ac mae hynny'n

helpu'r diwydiannau lleol yno i ddatblygu. Dywedodd swyddogion fod hwnnw'n faes sy'n brin iawn o ran datblygu sgiliau.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith, oherwydd yr economi, fod hwn yn gyfnod o drawsnewid gyda phobl yn symud i feysydd cyflogaeth newydd a gofynnwyd a yw hwn yn gyfle i bobl ailsgilio a symud i sector gwahanol trwy gynlluniau hyfforddi Llywodraeth Cymru pe baent yn dymuno gwneud hynny. Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion a fyddai modd i bobl wneud hynny. Dywedodd y swyddogion fod hynny'n wir.

Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at y potensial i gadw swyddi o ansawdd uchel ym Mhort Talbot o ddatgarboneiddio'r Gwaith Dur, gan y bydd pobl yn ceisio adleoli o ochr drom y diwydiant i ynni adnewyddadwy.

Gofynnodd yr aelodau am y dyraniad o £5,300,000 fel y nodwyd yn yr adroddiad a gofynnwyd i Chris Moore gadarnhau nad oes unrhyw arian wedi'i ryddhau fel rhan o hyn eto.

Dywedodd Chris Moore, pan gafodd y Fargen Ddinesig ei strwythuro'n wreiddiol, dyrannwyd yr arian i CNPT. Oherwydd mae CNPT wedi aildrefnu rhai o'i gynlluniau ac wedi mynd ar drywydd prosiectau sydd ychydig yn wahanol, fe wnaeth hynny ryddhau'r swm hwn. Teimlwyd, yn unol â'r cytundeb ar y cyd, ei bod yn synhwyrol ac yn briodol caniatáu i CNPT gyflwyno cynllun diwygiedig yn gyntaf. Dywedodd swyddogion na fydden nhw'n rhyddhau unrhyw gyllid nes bod ganddyn nhw brosiect sylweddol ar waith ac mae hyn yn rhan o'r £240,000,000 a ddyrannwyd yn wreiddiol ac aeth yn ôl at CNPT i gael y cyfle cyntaf i ddefnyddio'r arian.

Nodwyd yr adroddiad.

6. **ADRODDIAD BUDDSODDIAD/CYFRANIAD Y SECTOR PREIFAT.
(ER GWYBODAETH)**

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa bresennol gyda buddsoddiad sector preifat a chyfraniadau phortffolio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad a ddisbarthwyd.

Holodd yr Aelodau am niferoedd yr isadeiledd ddigidol ac am y buddsoddiadau o £14,600,000 gan Virgin sy'n ffurfio tri chwarter o'r niferoedd gwirioneddol hyd yma o ran buddsoddiad preifat.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cyllid hwnnw'n waith a fyddai wedi digwydd beth bynnag ac ar gyfer rhagamcaniadau buddsoddi Pentre Awel ar gyfer eleni, sut y gellir disgwyl y gall buddsoddiad o £20,000,000 gyrraedd eleni gan fod hynny'n swm sylweddol o arian.

Esboniodd swyddogion na fyddai'n bosib ateb y cwestiwn cyntaf, ond nad oedd unrhyw un yn disgwyl y byddai llawer o fuddsoddiad yn cael ei symud ymlaen mor gyflym.

Roedd swyddogion yn teimlo bod y model wedi bod o fudd i'r rhanbarth. Esboniodd swyddogion eu bod, o'u cymharu ag ardaloedd eraill, yn gwneud yn dda ac wedi ehangu a chyflymu eu cyflwyniad o'r isadeiledd ddigidol. Mae hyn oherwydd eu bod wedi trefnu'n rhanbarthol a bod ganddynt linellau ymgysylltu a staff cyflogedig yn yr awdurdodau lleol sy'n cefnogi isadeiledd ddigidol.

Cafodd swm Virgin Media o £7,000,000 o wariant yn y rhanbarth ei eithrio o'r £14,500,000 gan dîm Isadeiledd y Fargen Ddinesig gan nad oedd hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â thîm isadeiledd y Fargen Ddinesig neu brosiect felly fe wnaethant ei eithrio o'r asesiad. Mae'r gwariant yn y rhanbarth yn uwch os ydych chi'n cynnwys yr arian hwnnw, ond am y rhesymau a grybwyllwyd, ni allent ei gynnwys.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod bron i hanner y buddsoddiadau gwirioneddol a buddsoddiadau preifat rhagamcanol yn gysylltiedig â Virgin Media ac mae aelodau'n ymwybodol bod Virgin eisoes yn buddsoddi llawer o amser yn y maes hwn ar gyfer cyfran o'r farchnad. Holodd yr aelodau a oedd y Fargen Ddinesig yn gwneud cyfiawnder â'i hun.

Dywedodd swyddogion nad oeddent yn meddwl hynny wrth edrych ar ddadansoddiad y darparwyr a'r ardaloedd ac roeddent yn teimlo bod y fargen ddinesig wedi bod ar y blaen o ran ysgogi marchnad y sector preifat ac maent wedi gwneud hynny'n effeithiol. Dywedodd swyddogion y byddai'n mynd yn anoddach wrth i'r ardaloedd sy'n defnyddio gwasanaethau ffibr yn unig leihau, fodd bynnag, bydd dulliau profi 5G yn cyflymu, ac mae ffrydiau gwaith IOT ar waith yn llawn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hon yn well sefyllfa na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol a'i fod yn gymwys o ran buddsoddiad y gellir ei hawlio a effeithiwyd gan y fargen ddinesig a'r tîm isadeiledd ddigidol.

Esboniodd swyddogion fod y gyfran gyntaf o gyllid ar gyfer Pentre Awel yn dod o fenthycia gan y sector preifat ac maent yn mynd i mewn i'r farchnad i dynnu rhywfaint o arian ar gyfer elfen graidd y safle y maent yn ei adeiladu ar hyn o bryd. Dywedodd swyddogion y bydd y cyllid hwnnw'n dod gan y meddianwyr sy'n mynd ymlaen i gytundebau tenantiaeth o fewn cyfaddailad Pentre Awel.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y gallai'r elfen gyntaf hon lithro ychydig oherwydd bod bwriad i ddefnyddio'r cyllid yn y lle cyntaf a bu llithriad yn y prosiect, er bod elfen graidd y prosiect yn dal i fod ar y trywydd cywir i gael ei chwblhau erbyn mis Awst 2024. Bydd angen i'r gwesty a'r gofal nyrsio adennill eu costau ar eu pennau eu hunain o ran cyllid wrth iddo ddatblygu.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad gan y swyddogion o ran os yw'r £20,000,000 yn mynd i gael ei fenthycia gan gwmni buddsoddi neu fanc ac yna'n cael ei dalu'n ôl drwy'r tenantiaethau. Cadarnhaodd swyddogion mai dyna oedd y bwriad ac maen nhw'n siarad â buddsoddwyr posib. Mae yna hefyd rai trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â grantiau sy'n cael eu rhoi ymlaen llaw a rhai o'n grantiau ni felly bydd swyddogion yn ailgydbwysu hynny yn ystod y prosiect, pan fo'n briodol.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cyllid hwn yn angenrheidiol o ran y ffigur buddsoddi terfynol pe gallem fod mewn sefyllfa lle nad oedd angen i ni fenthycia, a fyddai swyddogion yn hyderus y byddent yn cael y buddsoddiad o £110,000,000 gan y sector preifat drwy'r gwesty a gweddill y cynllun.

Dywedodd swyddogion mai'r mater allweddol yw cael y tenantiaid i mewn i feddiannu'r gofod hwnnw a sut y byddech chi'n newid y llif incwm hwnnw'n werth cyfalaf. Nawr mae angen yr arian ond efallai y bydd ffyrdd eraill o edrych ar y ffrydiau incwm. Mae yna wahanol sefydliadau academaidd yn dod i mewn a'r sector preifat ac mae elfennau arloesi iddynt ac mae hynny'n ennill momentwm yn araf. Gofynnodd yr aelodau am y campysau a Glannau Abertawe o ran bod yn risgiau coch. Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn gwybod a fydd y buddsoddiad ar gyfer y campysau yn dechrau yn 2025, ac a fydd yn cael ei wasgaru dros nifer o flynyddoedd? Roedd yr aelodau hefyd am gael gwybodaeth mewn perthynas ag adeiladu'r gwesty a'r incwm rhent o Ffordd y Brenin.

Esboniodd swyddogion fod y campysau wedi cael eu datblygu lleiaf. Hyd nes y bydd y dyddiad cychwyn a'r cytundeb cyllido wedi'i lofnodi,

ni fyddant yn gwybod faint y mae wedi llithro hyd nes y gallant ddechrau adeiladu. Dywedodd Jonathan Burns fod yna gynllun ac mae wedi siarad â Richard Lancaster o Brifysgol Abertawe sy'n goruchwyllo hyn ac sydd wedi gweld y cynllun buddsoddi ond ni allant ddechrau ar hyn nes iddynt gael caniatâd i ddechrau adeiladu.

Esboniodd swyddogion fod llawer o'r £15,000,000 o arian y fargen ddinesig yng ngham un o amgylch Ysbytai Singleton a Threforys ac mae llawer o fuddsoddiad y sector preifat o gwmpas cam 2. Maent mewn sgysiau gyda phartneriaid yn y diwydiant ac mae swyddogion yn hyderus, unwaith y daw cymeradwyaeth ac maent yn dechrau cyflawni, yna byddant yn dechrau ei weld yn cyrraedd.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau bod arweinydd prosiect y gwesty wedi rhoi diweddariad i ddweud eu bod yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda buddsoddwyr o'r sector preifat a nifer o ffynonellau ariannu ar gyfer y gwesty. Mae gwaith ATG o baratoi'r gwagle gwerth £1,000,000 wedi cael ei gwblhau ond maen nhw'n parhau i drafod gyda'r gwesty. Mae cyhoeddiad ar fin digwydd, ac maen nhw'n cael trafodaethau gyda gwestywyr.

Dywedodd yr aelodau bod problem fawr gydag ariannu'r gwesty.

Dywedodd swyddogion nad yw'r diwydiant wedi gwella'n llwyr o hyd, ar hyn o bryd y gwerth yw £19,000,000 ac nid ydynt yn gwybod faint o hyn fydd yn dod o gyllid preifat gan efallai na fyddant yn fodlon buddsoddi ar y lefel honno.

Dywedodd yr aelodau y byddai bwlch rhwng y gwesty'n derbyn 3 a 4 seren a phroblemau ynghylch sut y gellid datrys y bwlch hwnnw bob amser. Roedd aelodau hefyd yn bryderus am y ffordd y byddai'r trefniant cyllido ar gyfer yr adeilad cychwynnol a'r les wedi hynny'n cael ei gwblhau. Roedd yr aelodau'n synnu nad yw'n risg goch yn hytrach nag oren am y rheswm hwnnw.

Teimlai'r aelodau hefyd y dylai'r rhent ar gyfer Ffordd y Brenin hefyd fod yn risg goch, ac nid ydynt yn gwybod a fydd Ffordd y Brenin byth yn cael ei llenwi â'r holl waith adeiladu arall sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Dywedodd swyddogion fod yr ymgyrch farchnata ar gyfer Ffordd y Brenin i fod i ddigwydd yn fuan. Mae arwyddion yn cyfleu'r gwrthwyneb, gan gataleiddio'r angen am ragor o swyddfeydd. Ystyrir bod swyddfeydd Ffordd y Brenin yn rhai cydweithredol o safon ac mae galw mawr amdanynt.

Mae'r Drindod Dewi Sant eisoes wedi nodi eu bod wedi clustnodi deiliadaeth o 90% ar gyfer tenantiaid ar gyfer y Matrics Arloesedd sy'n anhygoel oherwydd yr adeiladwaith sêl yn unig sydd wedi'i godi ar hyn o bryd.

Dyweddodd swyddogion mai penawdau'r telerau yn unig yw hwn ar hyn o bryd, ac nad oes unrhyw beth wedi cael ei lofnodi ond mae cael mynegiad o gytundebau tenantiaeth ar y gweill neu gael pobl yn gweithio tuag atynt yn wych. Gallai bod yn ysgogi busnesau neu ddiwydiant newydd i'r rhanbarth, ond bydd yr holl denantiaid hynny'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

Dyweddodd yr aelodau eu bod yn synnu bod Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer wedi'i nodi'n wyrdd yn yr adroddiad gan nad oes unrhyw ffigurau gwirioneddol ar gyfer y pedair blynedd gyntaf ac mae'r adroddiad yn rhagamcanu £1,400,000 ar gyfer eleni. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn edrych ar £1,400,000 allan o £375,000,000 ar gyfer tua hanner y prosiectau, sy'n ffurfio 60% o'r holl fuddsoddiadau sector preifat a'u bod ar ei hôl hi'n sylweddol o ran cyflawni holl wir fuddsoddiadau'r sector preifat.

Dyweddodd yr aelodau, mewn economi wan sydd â chyfraddau llog uchel, nad ydynt yn gwybod sut olwg fydd ar y dyfodol a chan fod y sector adeiladu mewn sefyllfa anodd ar hyn o bryd, mae aelodau'n teimlo ei bod yn uchelgeisiol i gredu y byddwn yn cyrraedd £375,000,000 o fewn 8 mlynedd gan mai dim ond £1,400,000 sydd wedi'i gyflawni mewn 7 mlynedd hyd yn hyn.

Dyweddodd swyddogion fod y £1,400,000 yn fuddsoddiadau gwirioneddol, a bod oedi yn yr adroddiadau gan fod yn rhaid iddynt gasglu adroddiadau, ac mae arweinydd y prosiect yn y broses o gasglu'r rheini at ei gilydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Dyweddodd Lisa Willis fod Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn gysylltiedig ag adeiladau cyfalaf ac yn gysylltiedig â chronfeydd sydd heb gael eu lansio eto. Mae'r rhagamcanion ar gyfer trosoledd y sector preifat tua diwedd y rhaglen felly ar gyfer y 2-3 blynedd nesaf ac maent ar y trywydd iawn.

Mae datblygiadau ar y gweill drwy'r awdurdodau lleol, drwy'r LCC a'r sector preifat. Mae ymarfer mapio cadwyn gyflenwi wedi'i gwblhau ac mae ganddynt adnoddau llawn nawr. Maent eisoes wedi dechrau cyflwyno rhaglen Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Er bod cynlluniau

busnes wedi cael eu cymeradwyo, ac maen nhw'n hyderus y bydd trosoledd rhagamcanion y sector preifat yn cael eu bodloni, mae hynny wedi cael ei ail-broffilio oherwydd bod oedi o ran adeiladu, ond maent yn hyderus y byddant yn bodloni'r ffigyrau hynny.

Roedd yr aelodau am gael eglurhad o ran beth sy'n rhoi'r hyder i swyddogion y byddant yn gallu bodloni'r ffigurau hyn, o ystyried bod pob prosiect adeiladu wedi llithro a bod y costau wedi cynyddu i bawb. Gydag economi wan a diwydiant adeiladu prysur iawn, sut y bydd ganddynt y gallu i ddarparu £375,000,000 mewn 8 mlynedd?

Eglurodd swyddogion nad yw Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn rhaglen adeiladu annibynnol ac mae'n gysylltiedig â'r datblygiadau a ragwelir eisoes, a nod y prosiect yw annog y datblygiadau i edrych ar dechnolegau adnewyddadwy. Byddai'r datblygiadau tai eisoes yn digwydd, mae Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn rhannu'r gwersi hynny a ddysgwyd.

Dyweddodd yr aelodau fod y cynllun a ragwelwyd ar gyfer adeilad tai Gogledd Abertawe rhwng Penllergaer, Casllwchwr, Tre-gŵyr a Gorseinon yn cynnwys oddeutu 1500 o dai yn ôl yn 2019, hyd yn hyn 150 yn unig sydd wedi cael eu hadeiladu. Dywedodd yr Aelodau fod cryn dipyn o'r adeiladwyr mwy yn cael problemau ar hyn o bryd wrth adeiladu'r stadau helaeth ac adeiladwyr llai nad ydynt yn profi problemau'n unig sy'n llwyddo i adeiladu'r ystadau llai.

Mae aelodau o'r farn bod angen iddynt fod yn ofalus iawn o ran sut y bydd y £375,000,000 yn cael ei wario. Dywedodd yr aelodau bod ychydig o waith ôl-osod llwyddiannus wedi digwydd yng Nghlydach ynghylch Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer ac efallai ar ryw adeg yn y dyfodol y gallai fod yn werth ystyried ôl-osod tai yn ogystal ag adeiladu rhai newydd.

Eglurodd swyddogion fod Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn edrych ar adeiladau newydd a'r farchnad ôl-osod a gallant roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau.

Mae aelodau'n teimlo ei bod yn ymdrech fawr i gyflawni hyn mewn cyfnod mor fyr o amser a chyda'r holl broblemau y soniwyd amdanynt yn flaenorol mewn perthynas â'r amserlen a sefyllfa bresennol yr economi, cynnydd mewn prisiau cost a sefyllfa'r diwydiant adeiladu. Byddai aelodau'n croesawu adroddiad i roi sicrwydd ar y cynlluniau ac i weld sut y byddai'r broses ôl-osod yn gweithio. Fe wnaeth yr

aelodau hefyd grybwyll y gallant ychwanegu ymweliadau safle at y Flaenraglen Waith.

Dywedodd Simon Brennan wrth aelodau bod elfen o risg bob amser pan fyddwch yn dibynnu ar y sector preifat ac mae pob awdurdod yn mynd drwy'r broses CDLI ar hyn o bryd ac mae gan bawb gynlluniau uchelgeisiol o ran darparu tai p'un a oes rhaid iddynt weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus neu LCC. Mae gan Gaerfyrddin ac Abertawe eu tai mewnol eu hunain hefyd.

Dywedodd swyddogion ei fod yn ymwneud â chysylltu â'r sector preifat a'u hannog i gyflawni. Esboniodd swyddogion ei fod hefyd yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr wrth gynllunio yn ogystal â chreu'r amgylchedd a fydd yn sicrhau bod adeiladwyr tai helaeth am fod yn rhan o ranbarth de-orllewin Cymru.

Dywedodd swyddogion fod y galw yno am dai oherwydd bod y gwaith yn cael ei wneud ar y porthladd rhydd a'r twf economaidd cyffredinol yn yr ardal a'i fod yn ymwneud â gallu bodloni'r cyflenwad ac annog contractwyr i ddod yma. Dywedodd swyddogion y gobaith yw, os byddant yn gweld y twf economaidd, yna bydd yr adeiladwyr tai hyn yn cael eu hannog i adeiladu yma.

O ran ôl-osod, dywedodd swyddogion nad oes llawer o arian ar gael a'i fod yn ymwneud â phrofi cysyniadau ac yna sicrhau bod llwybr da pan fydd ffrwd ariannu arall ar gael i annog ôl-osod ar draws y rhanbarth.

Awgrymodd yr aelodau efallai bydd angen i ni bwysu arnom ein hunain oherwydd y ffordd y mae cyfraddau morgaeisi'n cynyddu gan achosi problemau i bobl wrth geisio cael morgais yn ogystal ag ôl-osod mewn stoc tai'r awdurdod neu wrth weithio gyda phartneriaid.

Nodwyd yr adroddiad.

7. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Cytunodd yr aelodau i gynnal cyfarfod y Flaenraglen Waith ym mis Medi.

8. **EITEMAU BRYD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau bryd.

TRAILER_SECTION>

CADEIRYDD

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag